



# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

## Gair i Gall




## Gosod canlyniadau eglur Cenhadaeth a Gwerthoedd



**Bydd y canllawiau hyn o gymorth i:** fudiadau sydd eisiau sicrhau bod eu gwaith a'u gweithgareddau yn canolbwyntio ar gyflawni eu cenhadaeth.


### Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Eich mudiad yn eglur ynglŷn â pha newid y mae'n ceisio'i gyflawni a sut bydd yn mesur llwyddiant, gan roi gwell ffocws i'ch gwaith. 

### Beth fydd ei angen arnoch chi:

Eich 'cap meddwl' 


Gwybodaeth am Theori Newid 

Dealltwriaeth o'ch gweledigaeth a'ch cenhadaeth 

### Sut byddwch chi'n ei wneud:

- **Y canlyniadau yw'r gwelliannau economaidd, cymdeithasol a / neu amgylcheddol go iawn** rydych chi'n ceisio'u cyflawni trwy'ch prosiect.
- **Gall y canlyniadau fod yn gysylltiedig â newidiadau uniongyrchol** i ansawdd bywyd, er enghraifft, a yw pobl yn cael swyddi, a yw eu hiechyd wedi gwella, neu a ydynt yn llai ynysig. **Neu gallant fod yn newidiadau strwythurol** a fydd yn hwyluso buddiannau ehangach ymhen amser e.e. A oes partneriaeth wedi'i sefydlu, ydy'r cynrychiolwyr ar y bartneriaeth yn gynhwysol, ydy hi'n gweithio'n dda, ydy'r cymunedau'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau? **Neu gallant fod yn gysylltiedig â chapasiti:** ydy pobl yn fwy hyderus ac yn chwarae rhan yn y gwaith, ydy grwpiau cymunedol a mudiadau'n gallu gweithio gyda'i gilydd?

- **Rhaid mesur pob un o'r canlyniadau yn ôl cyfres benodol o ddangosyddion.** Sut byddwch chi'n mesur y newidiadau y bydd eich prosiect yn eu creu, yn y tymor byr a'r hirdymor? Sut byddwch chi'n gwybod a yw'r prosiect yn gwneud yn dda? Pa wybodaeth fydd angen i chi ei chasglu er mwyn monitro'ch prosiect? Pa mor aml fydd angen i chi ei chasglu?
- **Gwerth y canlyniadau yw eu bod yn rhoi eglurder ynglŷn â dibenion, yn rhoi canllaw ynglŷn â pha dystiolaeth i'w chasglu, ac yn cryfhau partneriaethau a chyfathrebu.** Mae nifer o brosiectau wedi colli eu ffordd trwy beidio â datgan yn eglur pa newidiadau ymarferol yr oeddent yn bwriadu eu gwneud.
- Gosodwch eich canlyniadau ar ffurf **'SMART'**. Daw'r term **SMART** o'r acronym Saesneg sy'n cyfeirio at: **Penodol (Specific)** (rhaid i'r modd y gosodwch eich canlyniad nodi'n benodol ar ba agwedd ar y mater sydd dan sylw fyddwch chi'n cael effaith), **Mesuradwy (Measurable)** (mynegwch eich canlyniad ar ffurf fesuradwy), **Y mae modd ei Gyflawni (Achievable)** (mae angen 'ymestyn' y mudiad er mwyn cael y canlyniad gorau posib o'r adnoddau a fuddsoddir, ond eto rhaid bod modd cyflawni), **Realistig** (bydd angen i chi gael set o ganlyniadau sydd o fewn cyrraedd), ac **Amserol (Timebound)** (nodi'n eglur erbyn pryd y bydd yr amcan wedi'i gyflawni).
- **'Ymarfer effaith'** yw'r hyn y mae mudiad yn ei wneud er mwyn cynllunio, deall, cyfathrebu a gwella ei effaith. **Mae'n dilyn cylch 4-cam: Cynllunio** (cynllunio sut i gyflawni'r effaith a geisir) **Gwneud** (mesur eich perfformiad yn ôl amcanion eglur) **Asesu** (gwneud synnwyr o'r data y byddwch wedi'u casglu) **Adolygu** (rhoi gwybod am y canlyniadau, a dysgu sut i wella'r gwaith).
- **Y canlyniadau yw'r newidiadau, y buddion, y gwersi a ddysgir neu effeithiau eraill** sy'n digwydd o ganlyniad i'r hyn y mae'r prosiect yn ei gynnig neu'n ei ddarparu.
- **Allbynnau yw'r cynnyrch, y gwasanaethau neu'r adnoddau** sy'n deillio o weithgaredd mudiad neu brosiect. Er enghraifft, gweithdai, taflenni, sesiynau gwaith achos neu wasanaeth brocera.
- Mae **'Theori newid'** yn arf defnyddiol iawn ar gyfer ystyried canlyniadau: proses o feddwl am 'stori' mudiad neu brosiect, gan gysylltu'r grŵp targed, y gweithgareddau, y canlyniadau a'r effeithiau yn rhesymegol. **Mae'n annog pobl i ystyried sut mae newid yn digwydd yn y tymor byr, y tymor canol a'r hirdymor er mwyn cyflawni'r effeithiau y bwriedir eu cael.** Caiff theori newid ei chysylltu â rhyw fath o fap gweledol yn aml.



- Byddwch yn eglur ynglŷn â'r hyn rydych yn ceisio'i gyflawni, ar gyfer pwy, a pham. Dim ond wedi gwneud hyn y byddwch chi'n gallu asesu a ellir disgwyl i'r gyfres o weithgareddau rydych wedi'u cynllunio gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Dyma'r cam cyntaf hefyd tuag at benderfynu pa ddata i'w casglu, er mwyn i chi allu defnyddio'r canlyniadau i farnu **i ba raddau rydych chi wedi peri newid ar lawr gwlad.**
- **Gyda phwy fyddwch chi'n rhannu'ch dysgu?** Gall fod yn berthnasol y tu hwnt i'ch mudiad chi.

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [ctauk.org/cciw-cymraeg](http://ctauk.org/cciw-cymraeg).**